

**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybie a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybie ar nos Fercher, Chwefror 7<sup>fed</sup>, 2018 am 6.30 yh.**

<b>Presennol</b>	Mrs J. Collins (Cadeirydd y Cyngor)		
Cynghorwyr	D. Hopkins Mrs L. Latham	Mrs Ll. Hindley	R. A. Davies
<b>Ymddiheuriadau</b>			
Cynghorwyr	I Rh. Llewelyn	Mrs K.D.L Davies	Mrs C. Thomas

**208.**

**Datganiadau o Fuddiannau**

Roedd Aelodau am ddatgan buddiant yn yr amrywiol fudiadau y maen nhw'n ymwneud â nhw, ac ni wnaethant gymryd rhan yn y drafodaeth, neu bleidleisio ar, y ceisiadau hyn. Llofnodwyd copiâu o'r ffurflenni buddiant i'w cadw gan y Clerc. Roedd y datganiadau fel a ganlyn:

Y Cynghorydd R. A. Davies	Ysgrifennydd 'Meysydd Chwarae Cymru' (Cymdeithas Genedlaethol y Meysydd Chwarae gynt) Llandybie.
Y Cynghorydd D. Hopkins	Is-Gadeirydd ac Ymddiriedolwr 'Meysydd Chwarae Cymru' (Cymdeithas Genedlaethol y Meysydd Chwarae gynt) Llandybie.
Y Cynghorydd Mrs L. Latham Mr S. Griffith (Clerc)	Yn gyflogedig gan Grŵp Cylch Meithrin Ymddiriedolwr 'Meysydd Chwarae Cymru' (Cymdeithas Genedlaethol y Meysydd Chwarae gynt) Llandybie ac Archwilydd Sefyliad y Merched Llandybie.

**209.**

**Ceisiadau am gymorth ariannol**

Bu'r pwyllgor, y unol â Chofnod 693/95, yn ystyried y ceisiadau canlynol am gymorth ariannol, a chytunwyd **argymell** y canlynol i'r Cyngor:

**Ceisiadau cyffredinol, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 137 ac Adran 145:**

<b>Enw'r Mudiad</b>	<b>Swm a argymhellir</b>
Rhydaman a'r Cylch: Bywyd ar ôl Strôc	£300
Brownis a Geidiau 1 <sup>af</sup> Penygroes	£200
Cylch Meithrin Penygroes	£250
Côr Meibion Llandybie	£300
Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen	£100
Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth Canser	£100
Sefydliad y Merched Llandybie	£200

---

Cadeirydd

Chwefror 7<sup>fed</sup>, 2018

Cyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Sirol y Blaenau £400  
Grŵp Meithrin, Ysgol y Blaenau £250

**Ceisiadau oddiwrth neuaddau pentref a ystyriwyd yn unol â darpariaethau y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 19**

Neuadd Lesiant Penygroes £825  
Cymdeithas Lesiant Saron £625  
Cymdeithas Lesiant Gymunedol Caerbryn £625

**Argymhellion eraill:**

**Ceisiadau am arian i gynnal a chadw llefydd chwarae, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 19**

Meysydd Chwarae Cymru, Llandybie £270  
Clwb Pêl-droed Ieuenctid Saron £250

**Ceisiadau am arian i gynnal a chadw claddfeydd, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 214**

Capel yr Annibynwyr, Penygroes £250

**210.**

**I ystyried costau Llogi**

Penderfynwyd eisoes bod defnyddwyr presennol y cyfleusterau yn cael defnyddio'r cyfleusterau yn rhad ac am ddim tan ddiwedd cyfnod y grant cynnal a chadw dwy flynedd, cyfnod a ddaw i ben ym Mawrth 2019. Ar gyfer llogwyr newydd o'r caeau Rygbi a Phêl-droed, **argymhellwyd** codi'r symiau llogi canlynol tan 30/3/2019:

Chwaraewyr Hŷn £50 y cae  
Ieuenctid (11-17 oed) £25 y cae  
Minis (hyd at 10 mlwydd oed) £5 y gêm

**Argymhellwyd** codi tâl llogi enwol o £10 i logi unrhyw barc ar gyfer diwrnodau hwyl. Y llogwr fydd yn gyfrifol am drefnu asesiad risg ac yswiriant.

**211.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.00 yh.

---

Cadeirydd